# **A port of some importance!**
# Porthladd o bwys!









## **Object stories**
## Storïau'r gwrthrychau

## Pennau bwyell carreg Neolithig



Esbonia'r hanesydd Dennis Morgan:

"Tua 4000CC, croesodd y mudwyr Neolithig cyntaf o dde Prydain i mewn i Forgannwg... Gan ei fod yn cael ei ddyfrio gan dair afon - Afon Rhymni i'r dwyrain, Afon Taf yn y canol ac Afon Elai i'r gorllewin - roedd y tir yn gorslyd ac yn ddyfrlawn... [felly] nid yw'n syndod bod y gwladychwyr cynnar hyn wedi osgoi safle prifddinas Cymru'r dyfodol, er efallai eu bod wedi archwilio afonydd ac aberoedd yr ardal yn eu cychod cyntefig.

Bro Morgannwg a'i thiroedd ffrwythlon oedd yn eu denu ... ac mae'r offer yr ydym wedi'u canfod yn dangos sut yr aethant ati i ffrwyno'r tir gwyllt. Mae cyllyll, llifiau a chrymanau fflint ac amrywiaeth eang o fwyeill carreg coeth wedi cael eu darganfod yn Sain Ffagan, yn Nhreláí ac yn y Fro."

Ffynhonnell: *The Cardiff Story*, Dennis Morgan

**Pennau saeth a phen bwyell o'r Oes Efydd**



Adam Gwilt, Curadur yn Amgueddfa Cymru:

Mae'r pennau saeth fflint hyn yn dyddio o'r Oes Efydd gynnar (2300-1500CC) a daethpwyd o hyd i'r rhan fwyaf ohonynt mewn gerddi neu mewn rhandiroedd! Roedd y bobl a oedd yn byw yn ardal sir Caerdydd yn yr Oes Efydd yn bennaf yn ffermwyr ac yn weithwyr metel cynnar. Roeddent yn defnyddio saethau ar gyfer hela ond roeddent hefyd yn symbol o statws rhyfelwr. "

Eglura Samantha Heale, Curadur yn Amgueddfa Stori Caerdydd:


"Roedd darganfod y pen bwyell hwn ar Ynys Echni ym 1988 yn dangos bod pobl wedi bod yn weithgar yno ers yr Oes Efydd (900-700CC). Ynys fechan ym Môr Hafren yw Echni, a hi yw pwynt mwyaf deheuol Cymru."



# Cleddyf o'r Oes Efydd Hwyr

Dyma Adam Gwilt, Curadur yn Amgueddfa Cymru yn esbonio pam fod y cleddyf hwn yn un arbennig:

"Mae cleddyfau o'r oes hwn yng Nghymru yn eithaf prin, gwnaed hwn tua 3,000 o flynyddoedd yn ôl. Rhywbeth sy'n nodweddiadol o'r hyn a ganfyddir yn ne Cymru yw bwyeill â chrau, fel y rhai y daethpwyd o hyd iddynt yn Llaneirwg, Sain Ffagan, Llandaf a Chyncoed. Dechreuwyd defnyddio cleddyfau slaesio ym Mhrydain tua 1300CC ac roedd yr arfau cyn bwysiced fel symbolau statws ac ar gyfer eu harddangos ag yr oeddynt fel arfau ar gyfer ymladd a brwydro. [Daethpwyd o hyd i hwn] yn celu'n ddwfn ger Afon Elái, sy'n awgrymu ei fod yn cael ei ddefnyddio fel rhan o seremoni grefyddol ger neu yn sianel hynafol yr afon. Roedd llawer o eitemau gwerthfawr yn yr Oes Efydd a'r Oes Haearn yn cael eu rhoi fel rhoddion i'r duwiau a'r duwiesau paganaidd a oedd yn byw mewn afonydd, llynnoedd ac mewn corsydd."



# Jar Rufeinig

Evan Chapman o Amgueddfa Cymru yn esbonio: "Dyma esiampl o'r crochenwaith llwyd garw lleol o dde-ddwyrain Cymru yn y cyfnod Rhufeinig. Daethpwyd o hyd iddo ar safle odyn yn Llanedern, felly mae'n dystiolaeth o fasgynhyrchu crochenwaith… mae'r ffaith fod yna odyn yn lleol yn dangos fod yna gymuned yno i'w gwasanaethu."

Dyma gyfieithiad o'r hyn a ysgrifennodd William Rees am y Rhufeiniaid yng Nghaerdydd: "…ymddengys bod cymuned fechan wedi'i sefydlu. Mae'n debyg ei bod yn cynnwys gwragedd a phlant y garsiwn a'r gymysgedd arferol o gyn-filwyr, pobl gyffredin oedd yn dilyn y fyddin i'w gwasanaethu a masnachwyr. Gellir ystyried y gymuned hon yn hedyn a dyfodd i fod yn ddinas Caerdydd heddiw."

Ffynhonnell: *Cardiff: A History of the City*, William Rees

# Powlen Samiaidd



Evan Chapman o Amgueddfa Cymru:

"Mae'r bowlen hon yn enghraifft o'r llestri bwrdd a fewnforiwyd o Gâl (Ffrainc) gan y Rhufeiniaid o ganol y ganrif gyntaf i ganol y drydedd ganrif. Daethpwyd o hyd iddi wrth gloddio yn y castell, felly mae'n siŵr ei bod yn cael ei defnyddio gan y milwyr yn y gaer Rufeinig ar y safle tua diwedd y ganrif gyntaf ac yn gynnar yn yr ail ganrif."

Esbonia'r hanesydd Dennis Morgan:

"Mae enghreifftiau o grochenwaith Samiaidd, marmor Eidalaidd a Groegaidd, biceri o Lyon (Ffrainc), neu win o'r Eidal a Gâl oll wedi cael eu canfod yn yr ardal ger Caerdydd. O Dalar Penarth, roedd llongau masnach yn cario'r nwyddau gwerthfawr hyn yn olygfa gyffredin ym Môr Hafren."

Ffynhonnell: *The Cardiff Story*, Dennis Morgan



# 'Celc Arian Coed y Wenallt'

Esbonia Dr Richard Watson:

"Cyn y bu farw'r Brenin Harri'r I yn 1135, dewisodd ei ferch, Mawd, fel ei etifedd a gwnaeth i nifer o'i arglwyddi addo y byddent yn ei chefnogi. Fodd bynnag, hawliodd ei nai, Steffan, ei orsedd a chafodd gefnogaeth y rhan fwyaf o Gyngor y Brenin.

Yn y cyfnod hwn Caerdydd oedd 'caput' neu brifddinas teyrnas fach Arglwydd Morgannwg. Roedd yn Arglwyddiaeth y Mers, felly nid oedd yn rhan o ddominiynau brenin Lloegr. Yr Arglwydd, Robert o Gaerloyw, oedd hanner brawd Mawd ac yn un o'i phrif gadfridogion ac yn gefnogwr brwd. Roedd Caerdydd yn ganolfan gadarn, gyda'r castell a bwrdeistref o ddinasyddion i'w chefnogi. Roedd yn ddigon pwysig fel y sefydlwyd bathdy i fathu darnau arian i Mawd."

## Teils llawr Canoloesol



Dr Mark Redknap, Curadur yn Amgueddfa Cymru:

"Canfuwyd y teils llawr hyn, wedi'u haddurno ag amrywiaeth o arfbeisiau, yn Heol Fawr. Yn y cyfnod canoloesol, roedd yna dai ysblennydd yn yr ardal hon, a oedd yn gartref i fasnachwyr cyfoethog a byddai'r teils llawr hyn wedi dod o un ohonynt."

Esbonia Dr Richard Watson:

"Erbyn 1670, pan gasglwyd y Dreth Aelwyd, Caerdydd oedd y gymuned fwyaf ym Morgannwg. Ac roedd gan y gymuned hon fwy o dai aml-aelwyd (lle tân) nag Abertawe neu'r Bont-faen. Dangosa hyn fod yna bobl gyfoethog iawn yn byw ac yn gwneud bywoliaeth yno."

## Tocyn



Disgrifia Mr a Mrs Borely sut y daethon nhw o hyd i'r tocyn:

"Teclyn cyfrif [neu docyn] o'r drydedd neu'r bedwaredd ganrif ar ddeg yw hwn. Daethon ni o hyd iddo ar ein rhandir. Byddai wedi cael ei ddefnyddio gan werthwr teithiol i gyfrif arian. Bob tro y byddai'n cyfrif cant, byddai'n defnyddio un o'r rhain. Byddai'n gwybod faint oedd yno erbyn gorffen. Roedd y rhandir ar Greenway Road, nepell o fur y môr.

Aethon ni ag e i'r amgueddfa, yr Amgueddfa Genedlaethol, pan ddaethon ni o hyd iddo ryw 30 o flynyddoedd yn ôl. Dywedodd hi [y wraig yn yr amgueddfa] ei fod mwy na thebyg wedi dod o deithiwr o dras Dwyreiniol neu Asiaidd a laniodd ar fur y môr ger New Road ac ymsefydlu yno cyn symud yn ei flaen i werthu pethau fel sidan a gleiniau."

## Tameidiau gwydr lliw o'r Brodyr Duon a'r Brodyr Llwydion



Esbonia'r hanesydd Dennis Morgan:

"Y Dominiciaid oedd y cyntaf i gyrraedd yng Nghaerdydd yn 1242 …cloddiodd Ardalydd Bute y safle yn 1887 pan ganfuwyd teiliau llawr a gwydr lliw gyda lluniau o anifeiliaid, adar a blodau."

Ffynhonnell: *The Cardiff Story*, Dennis Morgan

Rosie James, Prif Swyddog Tirwedd:

"Gallwch weld gweddillion Mynachdy'r brodyr Duon ym Mharc Bute. Ar ôl i Harri'r VIII wahanu gyda Rhufain, dymchwelwyd yr eiddo bron ar unwaith a chymerwyd y deunydd adeiladu i'w ddefnyddio mewn rhannau eraill o Gaerdydd. Yn 1540-43, erlynwyd John Lambert a Jayne Lychefeld a gyhuddwyd o ddwyn waliau, ffenestri a phren yr adeilad a'u dwyn i ffwrdd. Fe'u herlynwyd gan gefnogwyr y Brodyr ac roedd yn ymdrech aflwyddiannus i adennill rheolaeth o'u heiddo."



## Gwaith Maen y Brodyr Llwydion

Esbonia Dr Richard Watson:

"Roedd Prydain yn Gatholig ar y pryd ac mewn athrawiaeth Gatholig, mae'r pethau da yr ydych yn eu gwneud yn golygu eich bod yn cael mynd i'r nefoedd. Teulu'r de Clare's oedd yn rheoli Caerdydd ar y pryd, un o deuluoedd mwyaf pwerus Lloegr! Rhoddodd y teulu dir ac arian i annog y Mynachod Dominicaidd (y Brodyr Duon) a'r Mynachod Ffransisgaidd (y Brodyr Llwydion) i sefydlu eu hunain yng Nghaerdydd – yr unig dref yng Nghymru i fod â brodordy o'r ddwy urdd.

Roedd y Brodyr Llwydion yn gweithio gyda'r tlawd a'r gwanllyd. Byddent yn pregethu i'r gymuned leol, ac felly roeddent yn aml yn siarad Cymraeg. Byddai hyn wedi rhoi cysylltiad uniongyrchol, a phwysigrwydd, i Gaerdydd â'r Cymry oedd yn byw yn y cyffiniau."

# Deiau Sêl



Dr Mark Redknap, Curadur yn Amgueddfa Cymru:
"Roedd y deiau hyn yn cael eu defnyddio i greu'r seliau ar gyfer dogfennau tollau swyddogol. Maent yn dyddio o tua 1605 ac maent yn dangos bod Caerdydd yn borthladd tra phwysig yn y cyfnod hwnnw. Mae un yn nodi, 'Creek of Swansea in the Port of Cardiff', a'r llall 'Creek of Chepstow in the Port of Cardiff'."

Ymhelaetha Dr Richard Watson:
"Caerdydd oedd y prif borthladd yn y system a sefydlwyd ar ôl y Deddfau Uno. Roedd yn borthladd pwysig ymhell cyn i'r Ardalydd Bute adeiladu'r dociau yn y 19eg ganrif! Yng Nghymru, roedd yna dri phrif borthladd – Caerdydd, Aberdaugleddau a Chaer. Roedd Swyddfa'r Tollau yn y prif borthladd, ac roedd yn gyfrifol am gasglu tollau gan longau'n dod i mewn ac yn mynd allan, a chadw cofnodion o bob llong oedd yn gadael y porthladd a'i chilfachau – y porthladdoedd llai yr oedd yn gyfrifol amdanynt. Roedd 'cilfachau' Caerdydd yn cynnwys Casnewydd, Caerllion, Cas-gwent, Castell-nedd ac Abertawe."